

## **JAKOB FICHERT**

Pianydd amlwg ei le drwy'r gwledydd ydi Jakob Fichert. Perfformiodd yn helaeth yng ngwledydd Prydain a thramor a recordio i Toccata Classics, Resonus Classics, Divine Arts a Naxos yn fawr ei glod gan y beirniaid, yn unawdydd ac yn artist ar y cyd fel ei gilydd.

Mae Cerddoriaeth Siambr a repertoire Lied wrth graidd ei yrfa ganu erioed. Ar y llwyfan cyngerdd ac yn y stiwdio recordio cydweithiodd â cherddorion megis Janet Hilton, Alfia Naqibekova, Karin de Fleyt, Simon Desbruslais, Sebastian Müller, Matthias Gredler a llawer at hynny.

Enillodd Jakob wobrau fyrdd mewn cystadlaethau rhyngwladol, yn unawdydd ac yn gerddor siambr ill dau. Astudiodd yn Musikhochschule Karlsruhe gyda Wolfgang Manz cyn dilyn cwrs ôl-raddedig yn y Royal College of Music in London lle'r oedd yn un o fyfyrwyr Yonty Solomon. Graddiodd yn 2001 â Gradd Meistr mewn Cerddoriaeth Siambr ac wedyn dyfarnwyd iddo Gymrodoriaeth Iau'r Coleg.

Mae Jakob yn athro y mae galw mawr amdano a rhoes ddisbarthiadau meistr lawer i conservatoires, prifysgolion ac ysgolion cerdd arbenigol yng ngwledydd Prydain, Tsieina a Mecsico. Mae'n gweithio'n arholwr i ABRSM ac yn dal swydd Prif Ddarlithydd yn y Piano yn Leeds College of Music a Phrif Diwtor MA yn y Piano ym Mhrifysgol Caerefrog. Mae hefyd yn Ddarlithydd Cyswllt Prifysgolion Leeds a Hull.

[www.jakobfichert.com](http://www.jakobfichert.com)